Chwefror 2020

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned 2018-19

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Deryck Evans, Hefin Davies, Tom King, Erin Pollard a Rhian Power dan gyfarwyddyd Anthony Barrett, yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau allanol, gellir adnabod rhain drwy destun coch wedi’i danlinellu.


Cyflwyniad 5

1 Mae cynghorau cymuned yn rheoli mwy o arian ond mae cyfle i rai adolygu eu cyllidebau a’r gwasanaethau y maent yn eu darparu 7

2 Dim ond 66% o’r holl archwiliadau yn 2018-19 oedd wedi cael eu cwblhau erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi 2019 18

3 Mae nifer yr archwiliadau â barn amodol wedi gostwng ond mae’r nifer cyfredol, sef 218 o gynghorau, yn rhy uchel o hyd 21

4 Roedd problemau arwyddocaol mewn deuddeg o gynghorau a achosodd i mi gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd yn 2019. 32

5 Archwiliad 2019-20 yw’r archwiliad olaf dan y trefniadau presennol ac fe hoffwn glywed barn cynghorau ynglŷn â’m newidiadau arfaethedig 36

Atodiadau 40

Atodiad 1 – Cynghorau sy’n cyrraedd trothwy Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 41

Atodiad 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol 44

Atodiad 3 – Adroddiadau archwilio 46

Atodiad 4 – Adolygiadau archwilio 2015-16 i 2019-20 47

## Cyflwyniad

1 Mae cynghorau cymuned yn rheoli mwy o arian ond mae cyfle i adolygu gwasanaethau a chyllidebau

2 Dim ond 66% o gynghorau a gydymffurfiodd â'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig

3 Mae nifer yr archwiliadau â barn amodol wedi cwympo ond mae'r nifer cyfredol, sef 218 o gynghorau, yn rhy uchel o hyd

4 Fe arweiniodd problemau arwyddocaol at gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ar 12 o gynghorau

5 Archwiliad 2019-20 yw'r archwiliad olaf dan y trefniadau presennol a gofynnir am farn cynghorau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig



# Cyflwyniad

## Yn 2018-19, mae cynghorau tref a chymuned wedi gwneud cynnydd i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn fy adroddiad diwethaf ac mae nifer y barnau archwilio amodol wedi gostwng. Fodd bynnag, mae cyfle arwyddocaol i wella o hyd gan bod gormod o gynghorau'n dal i gael barnau archwilio amodol ar gyfer materion lluosog, a chan y bu angen i mi gyhoeddi deuddeg adroddiad er budd y cyhoedd yn 2019

1 Mae rhyw 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Fel un o haenau llywodraeth leol, maent yn gyrff etholedig, a chanddynt bwerau a hawliau yn ôl disgresiwn a osodwyd mewn cyfraith gan y Senedd i gynrychioli eu cymunedau a darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mewn rhai achosion, mae'r cynghorau hyn yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau trwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Ceir chwe chydbwyllgor o'r fath yng Nghymru. Ar y cyd, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyrff yn fel cynghorau cymuned.

2 Gall Cynghorau Cymuned gyflawni, ac maent yn cyflawni, rôl hollbwysig o ran creu a chynnal ymdeimlad cryf o gymuned ar lefel leol. Gallant wneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd eu cymunedau. Fodd bynnag, i wneud hynny'n effeithiol, rhaid bod ganddynt drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu da.

3 Hwn yw fy wythfed adroddiad blynyddol yn crynhoi materion a ganfuwyd gan archwilwyr allanol yn ystod eu harchwiliad statudol o gynghorau lleol yng Nghymru. Mae'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau lleol wedi'u bwriadu i ateb y dibenion canlynol:

- a fy ngalluogi i, fel yr archwilydd statudol ar gyfer cynghorau cymuned, i gyflawni fy nghyfrifoldebau;
- b rhoi lefel resymol o sicrwydd i drigolion lleol ynghylch rheolaeth ariannol a llywodraethu effeithiol yn eu cyngor cymuned; ac
- c cynorthwyo'r holl gynghorau i wella'u trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu lle mae angen datblygiad pellach.

4 Mae'r broses archwilio'n cynnwys adolygiad o'r cyfrifon blynyddol ac archwiliad o drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu'r cyngor sy'n sail i sicrhau gwerth am aran o ran defnydd cynghorau o adnoddau. Ers 2015-16, mae'r un trefniadau archwilio wedi bod yn cael eu cymhwyso i'r holl gynghorau cymuned ledled Cymru.

5 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio a gwblhawyd hyd at 30 Tachwedd 2019, ddau fis ar ôl y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig 2018-19. O ran y sefyllfa ar 30 Tachwedd 2019, dim ond 537 allan o 740 o archwiliadau (73%) oedd wedi cael eu cwblhau. Mae hyn yn ddirywiad o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2017-18 pan oedd 647 allan o 741 (87%) o archwiliadau wedi cael eu cwblhau. Caiff y rhesymau dros beidio â chwblhau archwiliadau eu nodi mewn mwy o fanylder yn Rhan 2.

6 Mae’r adroddiad hwn yn nodi yn Rhan 1, drosolwg o sefyllfa ariannol y sector sy’n amlygu sut y gall cynghorau adolygu’r symiau a godir gan dalwyr y dreth gyngor.

7 Mae Rhannau 2 i 4 yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2019 ac yn adnabod nifer o bryderon archwilio sy’n codi’n fynych ledled Cymru. Mae’n bwysig bod yr holl gynghorau’n ystyried y materion hyn i sicrhau eu bod yn mynd i’r afael ag unrhyw ddiffygion ar adeg gynnar.

8 Mae Rhan 5 yn nodi fy rhaglen archwilio ar gyfer y dyfodol. Caiff hon ei goleuo gan faterion a ganfuwyd gan archwilwyr mewn blynyddoedd blaenorol a datblygiadau ehangach sy’n effeithio ar gynghorau cymuned. Yn fy adroddiad ar ganlyniadau adroddiad 2012-13, fe ymrwymais i gyhoeddi rhag blaen y meysydd penodol y bydd archwilwyr yn canolbwyntio arnyn yn archwiliad y flwyddyn ganlynol. Mae hyn yn galluogi cynghorau cymuned i adnabod meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu eu trefniadau a chymryd unrhyw gamau gweithredu gofynnol. Mae’r adran hon o’r adroddiad yn nodi’r meysydd yr wyf yn bwriadu canolbwyntio arnynt dros y ddwy flynedd nesaf ac yn cyfeirio at fy nghynigion ar gyfer y trefniadau archwilio ar y cyfan o archwiliad 2020-21 ymlaen.

9 Caiff fy nghasgliadau cyffredinol o archwiliadau 2018-19 eu nodi isod.

Rhan 1

Mae cynghorau cymuned yn rheoli mwy o arian ond mae cyfle i rai adolygu eu cyllidebau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu



1.1 Y llynedd fe adroddais fod cynghorau cymuned ledled Cymru yn rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus a bod yr arian hwn yn cael ei godi'n bennaf gan dalwyr y dreth gyngor. Nodais, ar y cyfan, fod incwm yn uwch na gwariant a bod cynghorau'n dal symiau cynyddol mewn cronfeydd wrth gefn ond bod cynghorau'n aml yn methu ag ystyried y cronfeydd wrth gefn hyn wrth bennu eu cyllidebau a'u praeseptau.

1.2 Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn darparu rhywfaint o ddadansoddi lefel-uchel o sefyllfa ariannol y sector ac yn cynnig sylwebaeth ynglŷn â'r modd y gall cynghorau fynd i'r afael â rhai o'r materion ariannol y maent yn eu hwynebu yn y dyfodol agos.

## Mae cyfanswm yr arian a godir gan gynghorau cymuned wedi codi eto yn 2018-19, gyda hynny'n cael ei ysgogi gan godiadau pellach yn y praeseptau a godir ar dalwyr y dreth gyngor

1.3 Fe wnaeth y 734[1] o gynghorau tref a chymuned a'u 6[2] chydbwyllgor a gwmpesir gan yr adroddiad hwn godi incwm o dros £54.1 miliwn yn 2018-19. Mae cynghorau cymuned yn codi incwm naill ai trwy bennu praesept, trwy godi am nwyddau a gwasanaethau, trwy hawlio grantiau neu drwy werthu asedau hirdymor.

1.4 Mae praesept yn orchymyn diymwad i'r awdurdod unedol dalu swm penodol o arian i'r cyngor cymuned. Codir swm y praesept ar dalwyr treth gyngor y gymuned ac fe'i telir yn llawn i'r cyngor cymuned.

1.5 Mae cynghorau hefyd yn codi arian trwy godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor cymuned. Yn nodweddiadol, gellir codi tâl am y canlynol:

- defnyddio neuaddau pentref/canolfannau cymunedol a berchnogir ac a reolir gan y cyngor cymuned;
- ffioedd claddu lle mae'r cyngor cymuned yn awdurdod claddu;
- taliadau llogi ar gyfer cyfleusterau chwaraeon; a
- thaliadau parcio ceir.

1 Nid yw'n cynnwys Cyngor Gwledig Llanelli. Cyngor Gwledig Llanelli yw'r cyngor cymuned mwyaf yng Nghymru ac mae trefniant cyfrifyddu gwahanol yn bodoli ar ei gyfer.

2 Mae'r cydbwyllgorau i gyd yn bwyllgorau claddu ac yn gwario cyfanswm o ychydig dros £231,000.


1.6 Gall cynghorau hefyd godi arian i fuddsoddi mewn asedau hirdymor trwy ymgeisio am grantiau, tynnu benthyciadau i lawr neu werthu asedau hirdymor. Fel arfer, dim ond at ddibenion penodol y caiff cynghorau ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

1.7 Ar y cyfan, mae incwm cynghorau cymuned wedi cynyddu £5.6 miliwn (11%) i £54.1 miliwn yn 2018-19 a £10.7 miliwn (23%) ers 2014-15. Fe wnaeth cyfanswm y praesept a godir ar dalwyr treth gyngor ledled Cymru gynyddu £3.6 miliwn (10%) yn 2018-19 ac mae wedi cynyddu £8.7 miliwn (27%) dros y pum mlynedd ddiwethaf.

1.8 Mae derbyniadau o ffynonellau eraill wedi cynyddu hefyd yn 2018-19, gyda chynnydd o £2.1 filiwn o ychydig o dan £11.5 miliwn i ychydig o dan £13.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys dros £925,000 o fenthyciadau newydd yn y flwyddyn i ariannu prosiectau penodol.

## Arddangosyn 1 – incwm cynghorau cymuned o 2014-15 i 2018-19

Mae cyfanswm incwm cynghorau cymuned wedi cynyddu bob blwyddyn, o £43.4 miliwn yn 2014-15 i £54.1 miliwn yn 2018-19. Fe gynyddodd cyfanswm y praesept £8.7 miliwn i £40.6 miliwn dros y pum mlynedd ddiwethaf.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae gwariant cynghorau cymuned yn dal i gynyddu oherwydd cynnydd yng nghostau staff a gwariant uniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau


1.9 Mae gan gynghorau cymuned ystod o bwerau a swyddogaethau statudol y gallant yn gyfreithlon ysgwyddo gwariant mewn perthynas â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- golwg pentrefi gan gynnwys, er enghraifft, adeiladau a safleoedd allweddol, dylunio da ac ymylon ffyrdd;
- awyr agored ac ymarfer corff gan gynnwys, er enghraifft, meysydd pentref, diogelu tir comin, cyfleusterau hamdden, tiroedd hamdden a rhodfeydd cyhoeddus, pyllau nofio a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr â chefn gwlad;
- cynulliadau gan gynnwys pwerau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, adloniant a'r celfyddydau, neuaddau a chanolfannau a gefeillio;
- goleuadau cyhoeddus ac atal troseddau gan gynnwys, er enghraifft, gwyliadwriaeth;
- perchnogaeth ar randiroedd a darparu rhandiroedd;
- iechyd gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus, sbwriel a graffiti a draenio pyllau a dŵr;
- cyfathrebu gan gynnwys hawliau tramwy, gwaith i lwybrau troed a llwybrau ceffylau; ac
- pwerau sy'n gysylltiedig â'r meirw, er enghraifft darparu mynwent.

1.10 Ar y cyfan, mae gwariant cynghorau cymuned wedi cynyddu £5.7 miliwn (12%) i £53.2 miliwn yn ystod 2018-19 ac wedi cynyddu £12.2 miliwn (30%) ers 2014-15. Fe gynyddodd gwariant ar gostau staff a thaliadau eraill £1.6 miliwn (11%) a £4.1 miliwn (13%) yn y drefn honno yn 2018-19 a £3.8 miliwn (30%) ac £8.4 miliwn (30%) yn y drefn honno dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Arddangosyn 2 – gwariant cynghorau cymuned 2014-15 i 2018-19

Mae cyfanswm gwariant cynghorau cymuned wedi cynyddu bob blwyddyn, o £40.9 miliwn yn 2014-15 i £53.2 miliwn yn 2018-19. Cynyddodd gwariant ar gostau staff £3.8 miliwn i £16.6 miliwn ac fe gynyddodd gwariant ar nwyddau a gwasanaethau £8.4 miliwn i £36.2 miliwn yn yr un cyfnod.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru


## Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau cymuned wedi cynyddu eto yn 2018-19 i £39.4 miliwn. Er bod cyfradd y cynnydd wedi gostwng, mae angen o hyd i gynghorau unigol adolygu'r balansau a ddelir ganddynt

1.11 Gall cynghorau cymuned ddal cronfeydd wrth gefn a balansau am nifer o resymau megis i ariannu gwariant nas rhagwelwyd neu i 'gynilo' ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae'n ofynnol yn gyfreithiol eu bod yn neilltuo arian at ddibenion penodol. Er enghraifft, gall derbyniadau o werthu asedau hirdymor fod yn dderbyniadau cyfalaf na ellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

1.12 Mae'r symiau a ddelir gan gynghorau cymuned fel cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu £0.7 miliwn (2%) i £39.4 miliwn yn ystod 2018-19 ac wedi cynyddu £9.3 miliwn ar y cyfan (31%) ers 31 Mawrth 2014.

Arddangosyn 3 – cronfeydd wrth gefn cynghorau cymuned 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2019

Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau cymuned wedi cynyddu £9.3 miliwn dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.13 Yn adroddiad y llynedd (ar gyfrifon 2017-18), fe nodais fy mhryderon bod cynghorau'n aml yn codi arian gan dalwyr y dreth gyngor heb fod â diben clir ar gyfer defnyddio'r arian hwnnw. Rwyf wedi adrodd yn flaenorol ar annigonolrwydd prosesau pennu'r gyllideb gan ormod o gynghorau cymuned.

1.14 Yn 2018-19, fe wnaeth 394 o gynghorau gynyddu'r swm o arian yr oeddent yn ei ddal fel cronfeydd wrth gefn. Fe wnaeth 456 o gynghorau gynyddu eu praesept ac fe wnaeth 207 arall gadw'r praesept ar yr un lefel ag yn 2017-18. Roedd gan 135 o'r 456 o gynghorau a gynyddodd y praesept falansau ar 1 Ebrill 2018 a oedd yn fwy na phraesept 2018-19 ac roedd eu hincwm yn fwy na'u gwariant yn 2017-18. Roedd gan 88 o gynghorau a gadwodd eu praesept ar yr un lefel ag yn 2017-18 falansau ar 1 Ebrill 2018 a oedd yn fwy na'r praesept ac roedd eu hincwm yn fwy na'u gwariant yn 2017-18. Ymddengys fod nifer o'r cynghorau hyn yn codi praesept sydd y tu hwnt i'w hanghenion.

Arddangosyn 4 – fe gynyddodd cynghorau cymuned eu praeseptau a'u cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018-19 er bod ganddynt warged yn 2017-18

Fe wnaeth dros 390 o gynghorau gynyddu eu cronfeydd wrth gefn yn 2018-19 tra bo dros 220 o gynghorau wedi cynnal neu gynyddu lefel eu praesept yn 2018-19 er bod ganddynt warged yn 2017-18 a'u bod yn dal cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2018 a oedd yn uwch na phraesept 2018-19.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.15 Er bod cronfeydd wrth gefn wedi parhau i gynyddu, dylid nodi bod cyfradd y cynnydd o leiaf wedi arafu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, mae angen o hyd i gynghorau unigol gynnal adolygiad beirniadol o lefel balansau eu cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn arbennig o debygol o fod yn wir yn y cynghorau hynny:

- y mae balansau eu cronfeydd wrth gefn yn uwch na'u praesept;
- sy'n cynyddu eu praesept neu'n ei gadw ar yr un lefel yn barhaus o un flwyddyn i'r llall; ac
- sy'n gyson â gwarged am bod eu hincwm yn uwch na'u gwariant.

1.16 Wrth bennu'r gyllideb a'r praesept, mae'n gyfreithiol ofynnol i gynghorau cymuned ystyried gwerth cronfeydd wrth gefn. Rhaid i gynghorau cymuned ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn y maent yn eu dal a pha un a ydynt yn bwriadu ariannu peth neu'r cyfan o'u gwariant o gronfeydd wrth gefn neu, fel arall, pa un a oes angen iddynt gynyddu'r praesept i ariannu unrhyw wasanaethau ychwanegol a ddarperir.

## Wrth i awdurdodau unedol barhau i archwilio pa wasanaethau ellir eu lleihau ar lefel leol, mae cyfle i nifer o gynghorau cymuned ail-archwilio'r modd y maent yn pennu'r praesept i fynd i'r afael ag unrhyw faterion 'fforddiadwyedd' sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau

1.17 Mae'r cyfyngiadau ariannol parhaus a wynebir gan awdurdodau unedol ledled Cymru yn achosi pwysau arwyddocaol ar wasanaethau dewisol lleol. Mewn nifer o achosion, mae'r awdurdodau unedol yn ceisio trosglwyddo asedau a gwasanaethau i'r cynghorau cymuned yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, mae cynghorau cymuned yn ystyried bod darparu gwasanaethau ychwanegol yn broblemus oherwydd eu materion fforddiadwyedd hwy eu hunain.

1.18 Rwy'n nodi uchod mai prif ffynhonnell arian i gynghorau cymuned yw'r praesept. Er gwaethaf y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng meintiau cynghorau unigol, mae'n bosibl cymharu faint y mae cynghorau'n ei godi trwy'r praesept trwy gymharu'r taliadau treth gyngor cyfwerth â Band D y mae'r praesept yn eu cynrychioli.

1.19 Yn 2018-19, mae taliadau treth gyngor cyfwerth â Band D sy'n deillio o braeseptau cynghorau cymuned ledled Cymru yn amrywio mewn gwerth o ddim i £170, gyda gwerth cyfartalog o £34. Mae gan y nifer fach o gynghorau nad ydynt yn codi praesept ffynonellau incwm arwyddocaol eraill e.e. meysydd parcio, neuaddau a chyfleusterau hamdden.

1.20 Mae'r amrywiad hwn yn dynodi cwmpas eang y gwasanaethau a gynigir gan gynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Efallai na fydd y cynghorau lleiaf ond yn darparu gwasanaethau cyfyngedig megis grantiau bach i grwpiau cymunedol a sylwebaeth ar geisiadau cynllunio. Efallai y bydd cynghorau mwy'n cynnal llwybrau troed cyhoeddus, yn glanhau strydoedd, yn gweithredu cyfleusterau cyhoeddus, mynwentydd a pharciau neu'n darparu gwybodaeth ar gyfer twristiaid.

1.21 Mae’n bwysig nad yw cynghorau’n codi mwy o incwm trwy’r dreth gyngor nag sy’n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau’r cyngor a gweinyddu eu materion, gan arwain at lefelau cronfeydd wrth gefn sy’n codi’n barhaus. Fodd bynnag, mae’r un mor bwysig bod gan gynghorau ddigon o incwm i ddarparu gwasanaethau sy’n diwallu anghenion eu cymuned leol. Efallai nad felly y bydd hi mewn rhai cynghorau llai â thaliadau treth gyngor cyfwerth â Band D isel neu is na’r cyfartaledd.

1.22 Dylai cynghorau o’r fath ystyried y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd a pha un a yw’r rhain yn diwallu anghenion eu cymunedau. Efallai y byddant yn dymuno ystyried a oes gwasanaethau ychwanegol y gallant eu darparu neu gyfrannu at gostau eu darparu yn lleol. Gallai cynnydd bach yn y taliadau cyfwerth â Band D mewn termau absoliwt fod yn ddigon i alluogi’r cynghorau i ariannu’r gwasanaethau ychwanegol hyn neu gefnogi gwasanaethau presennol ar gyfer eu cymunedau lleol. Dim ond wedi i gynghorau fyfyrio ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd, y cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt ac effaith ariannol unrhyw ddatblygiadau arfaethedig y dylai’r cynnydd hwn ddigwydd.

### Astudiaeth achos

**Cyngor Cymuned A – cyfle i adolygu’r gwasanaethau lleol a ddarperir ac i godi’r praesept ar gyfer gwasanaethau ychwanegol neu i gefnogi gwasanaethau presennol**

Yn 2018-19, roedd gan Gyngor A gronfeydd wrth gefn agoriadol o £3,000. Roedd cyfanswm ei incwm yn £2,500, a hwnnw’n cael ei godi o braesept a oedd yn cynhyrchu tâl treth gyngor cyfwerth â Band D o £7.25. Roedd ei gyfanswm gwariant yn £4,100 a balans cau ei gronfeydd wrth gefn yn £1,400.

Pe bai Cyngor A yn cynyddu ei braesept fel ei fod yn cynhyrchu tâl cyfwerth â Band D sydd yr un faint â’r cyfartaledd yng Nghymru, byddai ei braesept yn £11,725. Mae hyn yn cynrychioli cost wythnosol o £0.65 am bob cartref cyfwerth â Band D cyfartalog.

Efallai y bydd y cyngor yn dymuno adolygu’r gwasanaethau y mae’n eu darparu ar gyfer y gymuned leol ar hyn o bryd ac ystyried a oes gwasanaethau ychwanegol y gallai eu darparu neu a oes gwasanaethau presennol sydd mewn perygl o gael eu terfynu y gallai eu cefnogi. Wedyn byddai angen iddo ystyried fforddiadwyedd unrhyw wasanaethau arfaethedig yng ngoleuni’r effaith ar filiau’r dreth gyngor.

**Astudiaeth achos**

**Cyngor Cymuned B – angen adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gyda chyfle i ostwng y praesept**

Yn 2018-19, roedd Cyngor B yn dal cronfeydd wrth gefn agoriadol o £19,170 ac fe bennodd braesept o £22,000. Cafodd swm bach o incwm arall, sef £834. Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Cyngor £16,740. Roedd hyn yn golygu bod ei gronfeydd wrth gefn wedi cynyddu i £25,268.

Dylai'r cyngor adolygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer y gymuned leol ar hyn o bryd ac ystyried a oes gwasanaethau ychwanegol y gallai eu darparu neu wasanaethau presennol sydd mewn perygl y gallai eu cefnogi.

Os na fydd yn canfod unrhyw wasanaethau ychwanegol y gall eu darparu, dylai'r cyngor ystyried a allai'r gwasanaethau presennol a ddarperir gael eu hariannu'n rhannol neu'n llwyr o gronfeydd wrth gefn gyda gostyngiad yn y dreth gyngor o ganlyniad.

Os oes angen gwasanaethau ychwanegol, yna gall y cyngor ystyried ariannu rhai o'r gwasanaethau hyn o'i gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, dylai nodi bod pen draw i'r cronfeydd wrth gefn ac na ellir eu cymhwyso am gyfnod amhenodol.


## Mae nifer y cynghorau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer mabwysiadu dyletswyddau penodol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i godi ac mae 55 o gynghorau bellach yn cyrraedd y trothwy o ran bod eu hincwm neu wariant blynyddol yn uwch na £200,000 am dair blynedd yn olynol

1.23 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ag incwm neu wariant dros £200,000 am dair blynedd neu fwy o'r bron fabwysiadu dyletswyddau penodol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol.

1.24 Yn 2018-19, roedd gan 83 o gynghorau incwm neu wariant uwch na £200,000. Mae'r nifer hwn yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn.

Arddangosyn 5 – cynghorau cymuned ag incwm neu wariant uwch na £200,000

Mae nifer y cynghorau cymuned sydd ag incwm neu wariant uwch na £200,000 wedi cynyddu i 83 yn 2018-19 ac mae 55 o'r cynghorau hyn bellach yn bodloni'r amod a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

1.25 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ag incwm neu wariant blynyddol uwch na £200,000 am dair blynedd neu fwy o'r bron fabwysiadu dyletswyddau penodol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol. Mae gan 55 o gynghorau incwm neu wariant uwch na £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf a rhaid iddynt yn awr gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr gyflawn o'r cynghorau hyn.

1.26 Mae dyletswydd benodol ond cyfyngedig ar y cynghorau hyn i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol. Rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion lleol.

1.27 Rhaid i'r cynghorau hynny sydd wedi mynd y tu hwnt i'r trothwy o £200,000m yn 2018-19 ond nad ydynt wedi gwneud hynny am dair blynedd o'r bron fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau hyn hefyd a chynllunio'n briodol ar gyfer eu cyflawni. Mae'n debygol y bydd angen i nifer o gynghorau tref a chymuned gynyddu eu hymwybyddiaeth o ddyletswyddau'r Ddeddf sy'n berthnasol iddynt hwy.

# Rhan 2

Dim ond 66% o'r holl archwiliadau yn 2018-19 oedd wedi cael eu cwblhau erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi 2019



## Mae Deddf 2004 a Rheoliadau 2014 yn nodi'n glir beth yw'r gofynion statudol ar gyfer paratoi ac archwilio datganiadau cyfrifyddu cynghorau cymuned

2.1 Mae Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau cymuned yn paratoi eu cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a bod y cyfrifon hynny'n cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol.

2.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.

2.3 Rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol.

2.4 Rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt.


2.5 Rhaid cwblhau'r ddau gam hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.6 Yn dilyn cymeradwyo'r cyfrifon, rhaid i gynghorau gyflwyno'r cyfrifon i mi i'w harchwilio. Wedyn rhaid iddynt gyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

## Dim ond 486 o archwiliadau (66%) oedd wedi cael eu cwblhau erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi, ac er bod 537 o archwiliadau (73%) wedi cael eu cwblhau erbyn 30 Tachwedd 2019, mae 38 o gynghorau (5%) wedi methu â darparu cyfrifon i gael eu harchwilio

Arddangosyn 6 – Cwblhau archwiliadau 2018-19

Dim ond 486 o archwiliadau (66%) a gwblhawyd erbyn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi. Cwblhawyd 51 o archwiliadau pellach ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019. O’r 203 o gynghorau sy’n weddill, roedd 38 heb gyflwyno cyfrifon i gael eu harchwilio.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

2.7 Mae archwilwyr yn nodi bod anawsterau parhaus o ran cael y ffurflenni blynyddol yn brydlon i’w harchwilio mewn nifer o gynghorau. Mewn rhai achosion, ni wnaeth cynghorau gyflwyno cyfrifon i gael eu harchwilio tan ddiwedd mis Medi. Mae hyn yn golygu na ellir cwblhau’r archwiliad erbyn 30 Medi.

2.8 O ran y sefyllfa ar 30 Tachwedd, roedd 38 o gynghorau heb ddarparu unrhyw gyfrifon i gael eu harchwilio. Yn rhai o’r achosion hyn, y rheswm oedd bod archwiliadau blynyddoedd blaenorol yn anghyflawn. Mewn lleiafrif bach o’r achosion, mae clercod y cynghorau wedi gwrthod darparu cyfrifon.

2.9 Yn sgîl yr ôl-groniad mawr, mae staff yn Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn gwneud gwaith archwilio yn y cynghorau hynny lle mae archwiliadau 2018-19 yn anghyflawn.

2.10 Fel rhan o’r gwaith hwn, bydd archwilwyr yn nodi’r rhesymau dros yr oedi cyn cyflwyno’r cyfrifon i gael eu harchwilio. Byddaf wedyn yn ystyried sut y dylid adrodd wrth y cynghorau unigol ar hyn a pha un a ddylai’r materion a ganfuwyd gael eu dwyn i sylw’r cyhoedd mewn adroddiad er budd y cyhoedd.

Rhan 3

# Mae nifer yr archwiliadau â barn amodol wedi gostwng ond mae'r nifer cyfredol, sef 218 o gynghorau, yn rhy uchel o hyd



## Mae archwilwyr yn cyhoeddi barnau archwilio ‘amodol’ pan fo cynghorau’n methu â chydymffurfio â’u cyfrifoldebau statudol neu lle mae archwilwyr yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth a nodir yn yr ffurflen flynyddol wedi’i chamddatgan

3.1 Mae fy null o archwilio cynghorau cymuned wedi’i fwriadu i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

3.2 Mae cynghorau cymuned yn paratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae’r ffurflen flynyddol yn cynnwys:

- y datganiadau cyfrifyddu blynyddol wedi’u paratoi hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn; a
- datganiad llywodraethu blynyddol sy’n nodi haeriadau lle mae’r cyngor yn cadarnhau’r trefniadau sydd ganddo i reoli ei faterion ariannol. Caiff manylion yr haeriadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu nodi yn Atodiad 2.

3.3 Mae archwilwyr yn adolygu’r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi’u cynnwys yn y ffurflen flynyddol a’r haeriadau a wnaed yn y datganiad llywodraethu blynyddol i ddod i gasgliad ar ôl ystyried pa un a oes tystiolaeth ai peidio bod y datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi’n briodol, pa un a oes gan y cyngor drefniadau digonol ai peidio i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau a pha un a yw’r wybodaeth yn y ffurflen flynyddol yn adlewyrchiad cywir o faterion ariannol y cyngor a’i drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu.

3.4 Mae archwilwyr yn mesur trefniadau’r cyngor yn erbyn ei gyfrifoldebau statudol ac yn rhoi barnau ‘amodol’ pan ydynt yn adnabod achosion o ddiffyg cydymffurfio. Caiff y rhain eu nodi fel eithriadau yn y farn archwilio. Fodd bynnag, gellir osgoi pob barn amodol os oes gan gynghorau drefniadau priodol i gydymffurfio â’u cyfrifoldebau statudol.

3.5 Mae archwilwyr hefyd yn amodi’r farn archwilio lle mae’r wybodaeth a geir yn y cyfrifon a/neu’r datganiad llywodraethu blynyddol yn anghyson â’r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer yr archwiliad, h.y. pan geir bod haeriadau cadarnhaol a wnaed gan y cyngor yn anghywir.

## O ran y sefyllfa ar 30 Tachwedd 2019, roedd 218 o gynghorau cymuned wedi cael barn archwilio amodol ar gyfer 2018-19 o'i gymharu â 340 yn 2017-18 ac mae hyn i'w briodoli'n bennaf i ddiffyg dealltwriaeth am yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon a'r archwiliad

3.6 Rwy'n cyhoeddi barn archwilio ddiamod pan nad oes unrhyw faterion yn dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad sy'n awgrymu bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion statudol neu reoleiddiol. Mae amod yn golygu naill ai nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol neu fod un neu fwy nag un o'r haeriadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amhriodol. Gall fy archwiliad ganfod materion eraill hefyd y mae angen eu dwyn i sylw'r cyngor, er nad ydynt yn dynodi methiant i gydymffurfio â gofyniad statudol neu reoleiddiol.

3.7 Cafodd 218 o gynghorau farn archwilio amodol hyd at 30 Tachwedd 2019. Mae nifer y barnau amodol yn debygol o godi wrth i waith archwilio ar y cynghorau sy'n weddill gael ei gwblhau.

3.8 Ac eithrio'r amodau sy'n gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer cyfrifon ac archwilio, mae natur yr amodau yr un fath fwy neu lai â 2017-18.

3.9 Mae Arddangosyn 7 yn crynhoi mynychder cymharol yr amodau a roddwyd gan archwilwyr. Mae Atodiad 2 yn nodi beth mae'r haeriadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yn ei feddwl.

## Arddangosyn 7 – barnau archwilio amodol 2018-19

Mae 218 o gynghorau cymuned (30%) wedi cael barnau archwilio amodol ar gyfer 2018-19 o'i gymharu â 340 (46%) yn 2017-18 ond y mater mwyaf cyffredin o hyd yw methu â gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Rhoddodd archwilwyr farnau archwilio amodol i 99 o gynghorau lle nad oedd eu haeriad eu bod wedi gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon yn cael ei ategu gan y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer yr archwiliad

3.10 Mae gan etholwyr lleol hawl dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio cyfrifon cynghorau cymuned. Mae'r trefniant archwilio hwn yn elfen hirsefydlog a phwysig o'r fframwaith sy'n galluogi'r etholaeth i ddwyn cynghorau cymuned i gyfrif. Caiff y gweithdrefnau y mae'n rhaid i gynghorau eu dilyn eu nodi yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Rhaid i gynghorau drefnu bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio am 20 diwrnod gwaith a rhaid iddynt roi rhybudd o'r cyfnod hwn am o leiaf bythefnos cyn ei fod yn dechrau.

3.11 Mae cysylltiad agos rhwng y trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon a'r trefniadau yr wyf fi'n eu gwneud i etholwyr ofyn cwestiynau neu wrthwynebu'r cyfrifon adeg eu harchwilio.

3.12 Bu gan y sector, yn ei gyfanrwydd, anawsterau hirsefydlog o ran cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Mewn nifer o achosion, mae hyn i'w briodoli i ddiffyg dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae fy nhimau archwilio'n nodi, mewn rhai achosion, bod y methiant i gydymffurfio'n fwriadol gyda rhai cynghorau'n rhwystro'r cyhoedd rhag archwilio'r cyfrifon. Lle canfuwyd hyn, mae archwilwyr wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ailddechrau'r broses.

3.13 Gan bod hon yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro, fel rhan o'm harchwiliadau yn 2017-18, fe ganolbwyntiais ar y trefniadau yr oedd cynghorau'n eu gwneud. Adroddais y llynedd fod dros 240 o gynghorau wedi cael barnau archwilio amodol yn 2017-18 am ddiffyg cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol yn y maes hwn.

3.14 Er mwyn cynorthwyo cynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau, ar gyfer archwiliad 2018-19 fe nodais ddyddiad cyffredin ar gyfer arfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau neu wrthwynebu ar adeg archwilio. Darparodd fy archwilwyr hysbysiad archwilio ar gyfer yr holl gynghorau a oedd yn nodi'r dyddiadau cyntaf y dylai cynghorau drefnu bod eu cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan etholwyr ac yn nodi'r dyddiad cyntaf y dylai'r cyfnod archwilio gael ei hysbysebu. Roeddwn i'n disgwyl y byddai bron pob cyngor yn cydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer 2018-19.

3.15 Rwy'n siomedig, felly, er iddynt gael rhybudd eglur ymlaen llaw o ddyddiad cyson, bod 99 o gynghorau wedi methu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mân dramgwyddau oeddent. Er enghraifft, roedd cyfnod y rhybudd yn 12 neu 13 diwrnod yn lle 14 a'r cyfnod archwilio'n 17 i 19 diwrnod yn lle 20 niwrnod gwaith.

3.16 Fodd bynnag, mewn achosion eraill, ni wnaeth cynghorau osod yr hysbysiad i hysbysebu'r cyfle i archwilio'r cyfrifon neu fe gwtogon nhw'n arwyddocaol ar y cyfnod archwilio.

3.17 Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaeth y cynghorau a fethodd yn 2018-19 fethu yn 2017-18 hefyd. Rwyf fi o'r farn bod y cynghorau hyn yn methu ag ateb y gofynion atebolrwydd sylfaenol y dylai eu cymunedau eu disgwyl ganddynt.

3.18 Yn fy marn i, mae torri'r gofynion statudol yn arwyddocaol yn effeithio'n niweidiol ar fy ngallu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol. Felly, byddaf eto'n pennu dyddiad cyffredin i arfer hawliau etholwyr ar gyfer archwiliad 2019-209. Lle nad yw cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r amserlen statudol, byddaf yn pennu dyddiad arall ar gyfer arfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau neu wrthwynebu. Wedyn byddaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorau ail-gynnal y cyfnod archwilio i roi digon o gyfle i etholwyr archwilio'r cyfrifon. Bydd hyn yn achosi mwy o waith i'r cynghorau dan sylw ac i'r archwilwyr.

3.19 Byddaf hefyd yn ystyried pa un a yw cynghorau unigol yn methu ag ateb y gofynion statudol yn rheolaidd ai peidio ac, os felly, pa un a yw hwn yn fater y dylid cyhoeddi adroddiad arno er budd y cyhoedd ai peidio.

## Er bod y gofynion cyfrifyddu ar gyfer cynghorau cymuned yn gymharol syml, cyhoeddodd archwilwyr farnau archwilio amodol mewn 11 o gynghorau am wallau arwyddocaol yn y cyfrifon ac fe wnaethant godi materion mewn perthynas â'r cyfrifon mewn 70 o gynghorau eraill

3.20 Mae cyfrifon cynghorau cymuned yn dilyn strwythur syml. Cyflawnir y math mwyaf sylfaenol o gyfrifyddu, cyfrifyddu derbyniadau a thaliadau, mewn dros 650 o'r 740 o gyrff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Mae cyfrifyddu derbyniadau a thaliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff gofnodi trafodion ac adrodd arnynt wrth i arian ddod i law neu gael ei wario. Caiff y trafodion eu dosbarthu i un o bum categori. Cyfansymiau'r categorïau hyn yw'r cyfrifon blynyddol.

3.21 Er gwaethaf symlrwydd y gofynion cyfrifyddu, fe wnaeth archwilwyr amodi cyfrifon 11 o gynghorau yn 2018-19 (2017-18 – 10 o gynghorau). Hefyd, nodwyd mân faterion gan archwilwyr mewn 70 o gynghorau (2017-18 – 180 o gynghorau).

3.22 Nododd archwilwyr y materion canlynol yn 2018-19:

- nid oedd y cyngor wedi cwblhau'r cyfrifon yn llawn, ee hepgor gwerth asedau a berchnogir gan y cyngor a dyledion sydd arno;
- nid yw'r cofnodion yn y cyfrifon blynyddol yn cael eu hategu'n llawn gan drywydd archwilio digonol i gysoni'r cyfrifon a'r llyfr arian;
- mae cofnodion cyfrifyddu unigol wedi cael eu dosbarthu'n anghywir neu eu cofnodi'n anghywir;
- yn hytrach na datrys unrhyw anghysonderau, mae cofnodion 'mantoli' wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifon i sicrhau bod y cyfrifon blynyddol wedi'u mantoli; ac
- nid yw'r cyfrifon a gyflwynwyd i gael eu harchwilio'n gywir yn rhifyddol.

3.23 Croesewir y gostyngiad arwyddocaol mewn materion a nodwyd gan archwilwyr ac mae'n dangos bod cynghorau'n ymateb yn gadarnhaol i faterion a godwyd mewn perthynas â'r cyfrifon. Mae'r materion hyn yn hawdd i'w hadnabod ac i'w datrys.

## Haerodd 66 o gynghorau yn anghywir eu bod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol ac i baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol o'i gymharu ag 86 yn 2017-18

3.24 Yr haeriad cyntaf a wneir gan gynghorau yn y datganiad llywodraethu blynyddol yw eu bod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol ac i baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn golygu bod gan y cyngor weithdrefnau priodol ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb a'i fod yn paratoi ac yn cymeradwyo'i gyfrifon yn unol â'r Rheoliadau.

3.25 Canfu archwilwyr gyfanswm o 66 o gynghorau a oedd wedi gwneud haeriad annigonol. Mae hyn yn cymharu ag 86 o gynghorau na wnaethant gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer 2017-18.

3.26 O'r cynghorau hynny sydd wedi cyflwyno cyfrifon i gael eu harchwilio, canfu archwilwyr na wnaeth 49 o gynghorau ymlynu wrth yr amserlen hon ar gyfer cyfrifon 2018-19. mae'n debygol y bydd y ffigwr hwn yn codi wrth i'r cyfrifon sy'n hwyr, y cyfeiriwyd atynt yn gynharach, gael eu cyflwyno ac i'r dyddiad cymeradwyo ddod yn hysbys.

3.27 Fel a grynhoir yn Arddangosyn 8, mae Rheoliad 15 yn nodi'r amserlen statudol i gynghorau cymuned baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.

### Arddangosyn 8 – y broses gymeradwyo statudol ar gyfer cyfrifon cynghorau cymuned

Rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ardystio'r datganiadau cyfrifyddu cyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol.

**Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn ardystio'r datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo**

→

**Ar ôl i'r swyddog ariannol cyfrifol eu hardystio, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol gan gynnwys y datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin**

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.28 Canfu archwilwyr achosion lle'r oedd y canlynol wedi digwydd:

- nid oedd y Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu tan ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol; ac
- roedd naill ai'r Swyddog Cyllid Cyfrifol neu'r Cyngor, neu'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyngor ill dau wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau erbyn 30 Mehefin. Mewn rhai achosion, roedd hyn i'w briodoli i gylchoedd cyfarfodydd cynghorau unigol a gellid bod wedi mynd i'r afael â hyn pe bai'r cyngor wedi addasu ei drefn cyfarfodydd arferol.

3.29 Dylid cymeradwyo'r gostyngiad yn nifer y cynghorau a gafodd amodau a oedd yn gysylltiedig â chymeradwyo cyfrifon. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod yr amserlen statudol wedi bodoli am nifer o flynyddoedd ac y dylai pob cyngor fod yn ei deall yn dda. Rhaid i gynghorwyr gymryd cyfrifoldeb am fynnu esboniadau gan y clercod a chadeiryddion pan nad yw cyfrifon yn cael eu paratoi mewn pryd i gydymffurfio â'r terfynau amser statudol.

## Mae 82 o gynghorau wedi methu â mabwysiadu rheolau sefydlog ar gyfer contractau fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol ac ni wnaeth 39 o gynghorau gydymffurfio â'u rheolau sefydlog

3.30 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorau wneud rheolau sefydlog sy'n cwmpasu contractau ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu wneud gwaith. Rhaid i reolau sefydlog ddarparu ar gyfer sicrhau cystadleuaeth ac ar gyfer rheoleiddio'r ffordd y gwahoddir tendrau neu ddyfynbrisiau.

3.31 Gellir gwneud rheolau sefydlog i reoleiddio busnes a thrafodion cynghorau hefyd. Darperir rheolau sefydlog enghreifftiol gan Un Llais Cymru. Mae rheolau sefydlog o'r fath yn darparu rheolau i gynghorau eu dilyn a gellir cyfeirio atynt pan gyfyd anawsterau. Pan fo cyngor yn gwneud rheolau sefydlog, rhaid iddo gydymffurfio â hwy.

3.32 Mewn blynyddoedd blaenorol, mae archwilwyr wedi canfod bod nifer o gynghorau naill ei heb reolau sefydlog neu eu bod yn methu â chydymffurfio â hwy. Felly, fe wnes i hyn yn faes ffocws ar gyfer archwiliad 2018-19.

3.33 Canfu archwilwyr 82 o gynghorau sydd wedi methu â mabwysiadu rheolau sefydlog. Hefyd, nid oedd 39 o gynghorau'n gallu darparu tystiolaeth ddigonol eu bod wedi cydymffurfio â'r rheolau sefydlog yr oeddent wedi'u sefydlu. Yn yr achosion hyn, rwy'n dod i'r casgliad nad oes gan y cynghorau drefniadau digonol i sicrhau gwerth am arian.

3.34 Mae rheolau sefydlog annigonol neu ddiffyg cydymffurfio â rheolau sefydlog yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn cynghorau lle'r wyf yn gwneud gwaith archwilio mwy manwl sydd â ffocws mwy pendant. Felly, bydd fy ngwaith archwilio yn y dyfodol yn ymgorffori adolygiadau rheolaidd o gydymffurfiaeth â rheolau sefydlog. Lle byddaf yn canfod meysydd arwyddocaol y ceir diffyg cydymffurfio ynddynt, byddaf yn ystyried a yw'n briodol llunio adroddiad cyhoeddus.

## Cafodd dros 100 o gynghorau farnau archwilio a amodwyd ar gyfer mwy nag un mater

3.35 Dylai amodau archwilio fod yn ddigwyddiad prin. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddwn yn disgwyl i gynghorau gael barnau archwilio sydd wedi'u hamodi am ddau reswm neu fwy. Yn 2018-19, cafodd 101 o gynghorau (14%) (hyd at 30 Tachwedd) farnau archwilio a oedd wedi'u hamodi am ddau reswm neu fwy. Cafodd 42 o gynghorau (6%) farnau archwilio a oedd wedi'u hamodi ar gyfer 3 mater neu fwy.

Astudiaeth achos

Cafodd barn archwilio 2018-19 ar gyfer Cyngor C ei hamodi am bum rheswm.

| Astudiaeth achos |
| --- |
| **Cyngor C – Amodau archwilio 2018-19**<br>Roedd barn archwilio 2018-19 wedi'i hamodi am y rhesymau canlynol:<br>• roedd y cyfrifon wedi'u camddatgan gyda gwallau arwyddocaol yn y symiau a nodwyd ar gyfer y praesept a'r balansau arian parod diwedd blwyddyn<br>• ni wnaeth y Cyngor ddilyn y broses gymeradwyo statudol a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014<br>• ni wnaeth y Cyngor weithredu TWE fel sy'n ofynnol yn ôl y Deddfau Trethi Incwm a Chorfforaeth. Mae hyn yn gadael y Cyngor yn agored i risg y bydd Cyllid a Thollau EM yn rhoi cosbau<br>• ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â'r gofynion statudol i hysbysebu'r archwiliad ac i ddarparu cyfnod priodol i etholwyr archwilio'r cyfrifon<br>• mae'r Cyngor wedi methu â mabwysiadu rheolau sefydlog ar gyfer contractau fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly nid oes ganddo drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian |

3.36 Nid yw'r cynghorau hynny sy'n cael barnau archwilio amodol ar gyfer materion lluosog yn cyrraedd y safonau sylfaenol o ran rheolaeth ariannol ac atebolrwydd y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Mae angen i'r cynghorau hyn adolygu eu trefniadau mewnol a gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd gan yr archwilwyr.

3.37 Ar gyfer archwiliad 2019-20, byddaf yn ystyried a yw'n briodol cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd lle'r wyf yn canfod hanes o fethiannau arwyddocaol.

## Eleni mae nifer y cynghorau lle mae'r archwilwyr yn nodi materion eraill sy'n codi nad ydynt yn arwain at farnau archwilio amodol wedi gostwng o 522 i 395

3.38 Bydd archwilwyr hefyd yn adrodd ar faterion eraill sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad ond nad ydynt yn effeithio ar y farn archwilio. Dygodd archwilwyr faterion o'r fath i sylw 395 o gynghorau yn 2018-19 o'i gymharu â 522 yn 2017-18.

3.39 Dylai cynghorau ystyried y materion hyn er mwyn iddynt allu gwella'u trefniadau mewnol yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed.

3.40 Mae'r themâu cyffredin a nodwyd gan archwilwyr yn cynnwys:

- cyflwyno ffurflenni blynyddol anghyflawn – 304 o gynghorau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyngor wedi hepgor dyddiadau a llofnodion.
- cynghorau'n dal cronfeydd wrth gefn rhy uchel neu isel – 95 o gynghorau. Nododd archwilwyr achosion lle mae cynghorau'n dal balansau uchel neu isel mewn perthynas â'u cyllideb flynyddol ac fe wnaethant argymell bod y cyngor yn ystyried lefel ei gronfeydd wrth gefn wrth bennu ei gyllideb. Rhoddir sylw manylach i hyn yn adran 1 yr adroddiad hwn.
- materion sy'n ymwneud â'r trefniadau i sicrhau archwiliad mewnol digonol ac effeithiol. Yn nodweddiadol, mae hyn yn golygu'r angen i sicrhau bod amodau gorchwyl priodol ar gyfer yr archwilydd mewnol.

3.41 Rwyf wedi rhoi sylw manwl i'r materion hyn yn fy adroddiadau ar archwiliadau 2015-16 a 2017-18. Lle mae archwilwyr wedi materion o'r fath yn 2018-19, rwy'n argymell bod cynghorau'n cyfeirio at fy adroddiadau cynharach ac yn ystyried pa newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud i unioni'r materion a nodwyd gan yr archwilwyr. Mae Atodiad 3 yn darparu dolenni i'r adroddiadau hyn.

Rhan 4

Roedd problemau arwyddocaol mewn deuddeg o gynghorau a achosodd i mi gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd yn 2019.



## Ym mhob archwiliad, mae'n ofynnol i mi ystyried a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu wneud argymhellion ysgrifenedig

4.1 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried a ddylwn, yn ystod fy archwiliad, lunio adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw er mwyn iddo gael ei ystyried gan y cyngor neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Rwy'n cyfeirio at yr adroddiadau hyn fel adroddiadau er budd y cyhoedd.

4.2 Mae gennyf hefyd bŵer statudol i roi argymhellion ysgrifenedig i gynghorau a'i gwneud yn ofynnol i'r cynghorau ystyried yr argymhellion hynny yn unol â darpariaethau penodol yn y Ddeddf. Rwy'n cyfeirio at y rhain fel argymhellion statudol.

4.3 Lle'r wyf yn arfer y pwerau hyn, rhaid i gynghorau ystyried yr adroddiadau a/neu argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

## Mae fy adroddiadau er budd y cyhoedd yn codi o waith â ffocws pendant i fynd i'r afael â risgiau a amlygwyd gan fy nhimau archwilio

4.4 Mae fy ngwaith archwilio arferol wedi'i fwriadu i fod yn gymesur â maint y cynghorau cymuned a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a galluogi cynghorau i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig yn unol â'r amserlen statudol ar gyfer cynghorau.

4.5 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i gael ei harchwilio naill ai i BDO neu Grant Thornton. Y ddau gwmni yma sy'n cwblhau'r archwiliad ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

4.6 Mae'r archwilwyr yn atgyfeirio cynghorau unigol ataf fi dan yr amgylchiadau canlynol:

- nid yw cynghorau'n cyflwyno'r ffurflenni blynyddol o fewn amserlen resymol;
- ceir anawsterau dro ar ôl tro wrth geisio cysylltu â'r cyngor neu gael gwybodaeth y mae ei hangen ar gyfer yr archwiliad, gan glerc y cyngor;
- mae'r tîm archwilio'n canfod materion arwyddocaol yn ystod eu gwaith archwilio arferol; a/neu
- mae etholwyr lleol yn arfer eu hawliau i ofyn cwestiynau ar adeg yr archwiliad neu i wrthwynebu'r cyfrifon.

4.7 Yn yr achosion hyn, mae staff yn Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith archwilio manwl sydd â ffocws pendant i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

## Gall cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ddysgu gwersi o'r adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd i ddeuddeg o gynghorau yn ystod 2019

4.8 Mae cynghorau cymuned yn gyfrifol am reoli arian cyhoeddus a lle ceir methiannau arwyddocaol mewn trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau unigol, rwy'n ystyried ei bod yn bwysig dwyn y methiannau hyn i sylw'r cymunedau y mae'r cynghorau'n eu gwasanaethu.

4.9 Rwy'n disgwyl fel arfer bod cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd yn ddigwyddiad anarferol. Fodd bynnag, yn 2019 fe gyhoeddais adroddiadau er budd y cyhoedd ar ddeuddeg o gynghorau a restrir yn Atodiad 3. Cyhoeddir copïau o'r adroddiadau hyn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio.cymru.

4.10 Mae'r adroddiadau a gyhoeddais yn 2019 yn amlygu materion sy'n codi dro ar ôl tro gan gynnwys:

- methiannau hirsefydlog o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu;
- prosesau penderfynu gwael yn arwain at ysgwyddo colledion arwyddocaol;
- methu â chydymffurfio â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol cynghorau eu hunain;
- methiant gan y cyngor i reoli ei glerc yn briodol;
- methiant gan y clerc i baratoi cyfrifon blynyddol ac i ymwneud â'r archwilydd;
- cofnodion cyfrifyddu anghyflawn yn cael eu cadw gan y clerc;
- diffyg cofnodion y gyflogres a methu â gweinyddu trefniadau trethiant TWE; a
- threfniadau archwilio mewnol aneffeithiol neu ddiffyg trefniadau o'r fath.

4.11 Er bod archwilwyr yn aml yn nodi agweddau ar y diffygion hyn ar draws y sector, mae'r adroddiadau er budd y cyhoedd yn nodi llywodraethu gwael, rheolaeth ariannol wael a phrosesau penderfynu gwael sy'n treiddio drwy gynghorau unigol. Er bod yr adroddiadau a'r argymhellion hyn yn cael eu cyfeirio at y cynghorau unigol, fel arfer ceir gwersi y gellir eu cymhwyso i gynghorau eraill ledled Cymru. Rwy'n argymell bod yr holl gynghorau'n ystyried y materion a godir yn yr adroddiadau a pha un a yw unrhyw faterion a godwyd yn berthnasol iddynt hwy o bosibl.

Rhan 5

# Archwiliad 2019-20 yw'r archwiliad olaf dan y trefniadau presennol ac fe hoffwn glywed barn cynghorau ynglŷn â'm newidiadau arfaethedig



## Bydd fy rhaglen archwilio ar gyfer 2019-20 a 2020-21 yn canolbwyntio ar feysydd lle mae gwaith archwilio blaenorol yn nodi bod cyfle i gynghorau cymuned wella'u trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu

5.1 Ers 2015-16, mae wedi bod yn ofynnol i'r holl gynghorau gwblhau a darparu tystiolaeth i ategu'r haeriadau a wneir mewn datganiad llywodraethu blynyddol ac iddo ddwy ran yn y ffurflen flynyddol.

5.2 Amcan y trefniadau archwilio a gyflwynwyd ar gyfer 2015-16 yw archwilio ac asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cynghorau cymuned dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar themâu a nodwyd dro ar ôl tro fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol ac roedd wedi'i bwriadu i helpu cynghorau i wella'u trefniadau, lle y bo'n ofynnol, dros amser.

5.3 Mae Arddangosyn 9 yn nodi'r amserlen arfaethedig ar hyn o bryd ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol. Mae Atodiad 4 yn nodi'r rhaglen bum mlynedd lawn o 2015-16 i 2019-20.

## Arddangosyn 9 – themâu llywodraethu yn y dyfodol

Bydd fy archwiliad yn 2019-20 yn canolbwyntio ar gofnodion swyddogol cynghorau o'u cyfarfodydd. Yn 2020-21, byddaf yn canolbwyntio ar drefniadau i gyflogi staff a sut y mae cynghorau'n ymdrin â'u cyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

| 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|
| Cofnodion cyfarfodydd[3] | Cyflogi staff<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Bydd archwilwyr yn ystyried:<br>• a yw'r cyngor yn cadw cofnodion priodol ar gyfer ei holl gyfarfodydd<br>• a yw'r cofnodion yn rhoi cofnod cywir o'r penderfyniadau a wnaed<br>• a yw'r cyngor yn gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi'r cofnodion | Bydd archwilwyr yn ystyried:<br>• a yw'r cyngor yn sicrhau bod gan yr holl staff gontract cyflogaeth a/neu fanylion eu telerau ac amodau cyflogaeth<br>• a yw'r cyngor yn gweithredu TWE yn briodol<br>• (lle y bo'n berthnasol) a yw'r cyngor wedi cyflawni ei rwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyhoeddi adroddiadau am y modd y mae wedi cyfrannu at yr amcanion llesiant yn ei ardal? |
| Bydd angen i gynghorau ddarparu'r[4] wybodaeth ganlynol:<br>• cadarnhad o'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2019-20; a<br>• chopïau o gofnodion penodedig neu fanylion ble y gellir dod o hyd i'r cofnodion ar-lein. | Bydd angen i gynghorau ddarparu'r4 wybodaeth ganlynol:<br>• tystiolaeth bod gan gyflogeion gontractau cyflogaeth a/neu delerau ac amodau cyflogaeth wedi'u dogfennu;<br>• tystiolaeth bod cyflog yn cael ei gyfrifo yn unol â chontractau;<br>• tystiolaeth ei fod wedi gweithredu TWE yn unol â'r gyfraith; a hefyd<br>• yr adroddiadau blynyddol sy'n nodi sut y maent yn cyfrannu at yr amcanion llesiant lleol ar gyfer yr ardal (cyrff perthnasol yn unig) |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

3 Fy mwriad gwreiddiol oedd archwilio trefniadau cynghorau ar gyfer gwneud taliadau. Fodd bynnag, mae adolygiad manwl o daliadau'n rhan annatod o'm cynigion ar gyfer dyfodol archwilio cynghorau cymuned. Ar ôl trafod gyda chynrychiolwyr y sector, rwyf o'r farn ei bod yn briodol gohirio'r adolygiad hwn tan 2020-21.

4 Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Gall archwilwyr ofyn am wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol yn eu tyb hwy.

5.4 Dylai cynghorau nodi y bydd yr adolygiad arfaethedig o gyfrifoldebau mewn perthynas â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ddefnyddio i adnabod arfer da yn y sector. Bwriedir gofyn i gynghorau perthnasol ddarparu copi o'u hadroddiadau ar gyfer yr archwiliad. Bydd yr adroddiadau'n cael eu hadolygu'n fanwl wedyn fel rhan o brosiect Cyfnewid Arfer Da.

5.5 Bydd angen i gynghorau fod yn ymwybodol hefyd y gallai fy nghynigion newid os bydd gwaith archwilio yn 2019-20 yn canfod materion sy'n codi dro ar ôl tro ac y mae gofyn rhoi sylw iddynt ar draws y sector fel rhan o archwiliad 2020-21.

## Anogaf yr holl bartïon â buddiant i ymateb i'm ymgynghoriad ar y trefniadau archwilio yn y dyfodol a fydd yn gymwys o archwiliad 2020-21

5.6 Mae'r trefniadau archwilio presennol wedi'u bwriadu i fod yn gymesur â maint cynghorau unigol. Fodd bynnag, mae fy ngwaith archwilio â ffocws pendant yn ddiweddar wedi canfod risgiau archwilio arwyddocaol nad yw'r trefniadau archwilio presennol yn ymdrin â hwy. Rwyf wedi dod i'r casgliad, felly, nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i ddiwallu fy anghenion fel Archwilydd Cyffredinol.

5.7 Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rwy'n cynnig newid y trefniadau archwilio o 2020-21 ymlaen.

5.8 Bydd fy nhrefniadau archwilio arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru'n cynnwys rhaglen archwilio dros dair blynedd sydd wedi'i bwriadu i fodloni fy nghyfrifoldebau statudol gan ddarparu lefel ddigonol o sicrwydd archwilio am gost resymol.

5.9 Rwy'n cynnal ymgynghoriad chwe wythnos gyda'r sector (a'r cyhoedd) ac yn croesawu ymatebion gan yr holl bartïon â buddiant trwy arolwg ar-lein, trwy'r e-bost neu drwy'r post. Bydd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg rhwng 6 Chwefror a 19 Mawrth 2020. Bydd y papur ymgynghori a manylion sut i ymateb yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn https://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/ymgynghoriadau

5.10 Hoffwn glywed eich meddyliau ynglŷn ag wyth cwestiwn am y trefniadau archwilio arfaethedig. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddaf yn cyhoeddi'r trefniadau terfynol ac yn cynnal gweminar Cyfnewid Arfer Da ym mis Gorffennaf 2020 i egluro'r trefniadau hynny.

# Atodiadau

Atodiad 1 – Cynghorau sy'n cyrraedd trothwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Atodiad 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Atodiad 3 – Adroddiadau archwilio
Atodiad 4 – Adolygiadau archwilio 2015-16 i 2019-20



# Atodiad 1 – Cynghorau sy'n cyrraedd trothwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

| **Cynghorau sy'n cyrraedd y trothwy gwariant o £200,000 rhwng 2016-17 a 2018-19** |
|---|
| Cyngor Tref y Fenni |
| Cyngor Tref Abergele |
| Cyngor Tref Aberystwyth |
| Cyngor Dinas Bangor |
| Cyngor Tref y Barri |
| Cyngor Tref Bae Colwyn |
| Cyngor Tref Biwmares |
| Cyngor Cymuned Blaenhonddan |
| Cyngor Tref Aberhonddu |
| Cyngor Tref Pen-y-bont |
| Cyngor Tref Bwcle |
| Cyngor Tref Brenhinol Caernarfon |
| Cyngor Cymuned Parc Caia |
| Cyngor Tref Cilycoed |
| Cyngor Tref Caerfyrddin |
| Cyngor Tref Cas-gwent |
| Cyngor Cymuned Coedffranc |
| Cyngor Cymuned Coedpoeth |
| Cyngor Tref Cei Connah |
| Cyngor Tref Conwy |
| Cyngor Tref Cwmaman |
| Cyngor Cymuned Cwm-brân |
| Cyngor Tref Dinbych |
| Cyngor Cymuned Gwersyllt |
| Cyngor Tref Hwlffordd |
| Cyngor Cymuned Penarlâg |
| Cyngor Tref Caergybi |
| Cyngor Tref Llandudno |

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy gwariant o £200,000 rhwng 2016-17 a 2018-19 |
| --- |
| Cyngor Cymuned Llanedi |
| Cyngor Tref Llanelli |
| Cyngor Cymuned Llangennech |
| Cyngor Cymuned Llannon |
| Cyngor Cymuned Llantrisant |
| Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdre |
| Cyngor Tref Llanilltud Fawr |
| Cyngor Tref Machynlleth |
| Cyngor Tref Maesteg |
| Cyngor Tref Aberdaugleddau |
| Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| Cyngor Tref Trefynwy |
| Cyngor Tref Castell-nedd |
| Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn |
| Cyngor Cymuned Pembre a Phorth Tywyn |
| Cyngor Tref Penarth |
| Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl |
| Cyngor Tref Pontypridd |
| Cyngor Tref Porthcawl |
| Cyngor Tref Prestatyn |
| Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog |
| Cyngor Tref y Rhyl |
| Cyngor Cymuned y Tŷ Du |
| Cyngor Dinas Tyddewi |
| Cyngor Cymuned Tonyrefail a’r Cylch |
| Cyngor Tref y Trallwng |
| Cyngor Tref Ystradgynlais |

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy gwariant yn 2017-18 a 2018-19 |
| --- |
| Cyngor Cymuned Cefn |
| Cyngor Tref y Fflint |
| Cyngor Tref Treffynnon |
| Cyngor Tref Cydweli |
| Cyngor Cymuned Llandybie |
| Cyngor Cymuned y Mwmbwls |
| Cyngor Tref Neyland |
| Cyngor Cymuned Offa |
| Cyngor Tref Penfro |

| Cynghorau sy’n cyrraedd y trothwy gwariant yn 2018-19 yn unig |
| --- |
| Cyngor Tref Llansawel |
| Cyngor Cymuned Brychdwn |
| Cyngor Cymuned Cilybebyll |
| Cyngor Cymuned y Bont-faen gyda Llanfleiddan |
| Cyngor Tref Ffestiniog |
| Cyngor Tref Glyn-nedd |
| Cyngor Tref Gorseinon |
| Cyngor Tref Llandeilo |
| Cyngor Tref Llandrindod |
| Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau |
| Cyngor Tref Llangollen |
| Cyngor Cymuned Llanharan |
| Cyngor Tref Trefaldwyn |
| Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy |
| Cyngor Cymuned Penyffordd |
| Cyngor Tref Rhuthun |
| Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod |
| Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Brynbuga |

# Atodiad 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mae'r cyngor yn gwneud cyfres o haeriadau ynglŷn â sut y mae wedi rheoli ei faterion ariannol. Dylai pob cyngor allu darparu tystiolaeth briodol i ategu ateb cadarnhaol i haeriad.

| Haeriad | Mae hyn yn golygu bod y Cyngor |
|---|---|
| 1. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | • Wedi pennu ei gyllideb a monitro'i berfformiad yn erbyn y gyllideb<br>• Wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfoes a dogfennau ategol<br>• Wedi cysoni ei gofnodion cyfrifyddu â'i gyfriflenni banc i gadarnhau cyflawnrwydd a chywirdeb y cofnodion cyfrifyddu<br>• Wedi paratoi a chymeradwyo'i ddatganiadau cyfrifyddu blynyddol yn unol â'r rheoliadau |
| 2. Rydym wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd. | • Wedi gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu arian cyhoeddus ac adnoddau sydd yn ei ofal<br>• Wedi sicrhau bod ei asedau'n cael eu sicrhau a'u rheoli'n briodol<br>• Wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau dan ddeddfwriaeth cyflogaeth a bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau dilysrwydd holl drafodion y gyflogres<br>• Wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheolaeth fewnol |
| 3. Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i'n sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion sy'n ymwneud ag achosion gwirioneddol na phosibl o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol arwyddocaol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/ Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol. | • Wedi sefydlu trefniadau penderfynu priodol i sicrhau bod ei holl weithgareddau'n rhai y mae ganddo bwerau statudol i weithredu mewn perthynas â hwy<br>• Wedi sefydlu gweithdrefnau i adolygu'r modd y mae'n cydymffurfio â rheoliadau statudol a bod gofynion newydd neu ofynion sydd wedi newid yn cael eu gwneud yn hysbys i aelodau<br>• Wedi'i argyhoeddi ei hun nad yw wedi gwneud unrhyw benderfyniadau nac awdurdodi unrhyw weithredoedd sy'n mynd y tu hwnt i'w bwerau nac yn torri cyfreithiau, rheoliadau nac arferion priodol |

| Haeriad | Mae hyn yn golygu bod y Cyngor |
|---|---|
| 4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | • Wedi gwneud trefniadau priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014<br>• Wedi cyhoeddi hysbysiad ynghylch cwblhau archwiliad y flwyddyn flaenorol yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) |
| 5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu bolisi yswiriant allanol lle y bo'n ofynnol. | • Wedi adnabod, asesu a chofnodi risgiau sy'n gysylltiedig â'i weithredoedd a'i benderfyniadau a allai ddwyn canlyniadau ariannol neu o ran ei enw da<br>• Wedi gwneud trefniadau priodol i liniaru neu reoli'r risgiau hynny<br>• Wedi cofnodi ac adolygu'r risgiau a'r trefniadau cysylltiedig |
| 6. Rydym wedi cynnal system ddigonol ac effeithiol i gynnal archwiliadau mewnol o'r cofnodion cyfrifyddu a systemau rheolaeth trwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | • Wedi trefnu i berson cymwys, a oedd yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynglŷn â pha un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff<br>• Wedi darparu'r holl ddogfennau perthnasol a gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr archwilydd mewnol<br>• Wedi cael ac ystyried adroddiad gan yr archwilydd mewnol sy'n nodi canfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd |
| 7. Rydym wedi ystyried a yw unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, rydym wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | • Wedi ystyried a fu unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn neu ar ôl diwedd y flwyddyn a allai ddwyn canlyniadau ar gyfer sefyllfa ariannol y cyngor<br>• Wedi adlewyrchu'r canlyniadau hyn lle'r oedd yn briodol gwneud hynny |
| 8. Rydym wedi cymryd camau priodol mewn ymateb i'r holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | • Wedi ystyried yr holl adroddiadau a gafwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol<br>• Wedi adnabod a chymryd yr holl gamau priodol a oedd yn ofynnol i fynd i'r afael â diffygion a ganfuwyd gan yr archwilwyr |

# Atodiad 3 – Adroddiadau archwilio

Mae adroddiadau sy'n crynhoi canlyniadau archwiliadau o gynghorau lleol ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio.cymru.

| Adroddiadau cenedlaethol |
|---|
| Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18 |
| Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17 |
| Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned 2015-16 |
| Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2014-15 |
| Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru |

Cyhoeddwyd adroddiadau er budd y cyhoedd i ddeuddeg o gynghorau yn 2019.

| Adroddiadau er budd y cyhoedd |
|---|
| Cyngor Cymuned Bodorgan |
| Cyngor Tref Bwcle |
| Cyngor Tref Cei Connah |
| Cyngor Cymuned Cynwyd |
| Cyngor Tref Glyn-nedd |
| Cyngor Cymuned Llanfairpwll |
| Cyngor Cymuned Llanfrothen |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen |
| Cyngor Cymuned Maenclochog |
| Cyngor Cymuned y Mwmbwls |
| Cyngor Tref Penmaenmawr |
| Cyngor Cymuned Rhosyr |

# Atodiad 4 – Adolygiadau archwilio 2015-16 i 2019-20

Amcan y trefniadau archwilio presennol a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad 2015-16 fu archwilio ac asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cynghorau lleol dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'r adolygiadau wedi canolbwyntio ar themâu a nodwyd dro ar ôl tro fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol ac maent wedi'u bwriadu i helpu cynghorau i wella'u trefniadau, lle y bo'n ofynnol, dros gyfnod o amser.

| Blwyddyn archwilio | Maes y rhoddwyd sylw iddo | Diben |
|---|---|---|
| 2015-16 | 1 Cyfrifo a chymeradwyo'r gyllideb a'r praesept<br>2 Trefniadau ar gyfer monitro'r sefyllfa ariannol<br>3 Telerau ymrwymo ar gyfer archwilio mewnol | • Sicrhau bod y cyngor wedi paratoi a chymeradwyo'i gyllideb a'i braesept yn briodol ac wedi monitro ei berfformiad yn erbyn y gyllideb<br>• Sicrhau bod gan archwilydd mewnol y cyngor amodau gorchwyl priodol i ddarparu gwasanaeth digonol ac effeithiol |
| 2016-17 | 1 Rheoli'r gyflogres gan gynnwys trefniadau i weithredu TWE<br>2 Mabwysiadu cod ymddygiad | • Sicrhau bod y cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i weithredu TWE.<br>• Sicrhau bod y cyngor wedi mabwysiadu a chytuno ar God Ymddygiad yn seiliedig ar y model cenedlaethol |
| 2017-18 | 1 Ystyried cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y cyngor<br>2 Cymhwyso adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>3 Talu arian rhodd am wasanaethau | • Sicrhau bod y cyngor wedi ystyried ei gronfeydd wrth gefn wrth bennu ei braesept.<br>• Sicrhau bod y cyngor wedi gwneud defnydd priodol o'i bŵer dewisol<br>• Sicrhau bod y cyngor wedi adnabod y sail gyfreithiol dros unrhyw drefniadau arian rhodd am wasanaethau sydd ganddo |
| 2018-19 | 1 Mabwysiadu rheolau sefydlog a chydymffurfio â hwy<br>2 Sefydlu pwyllgorau mewn modd priodol | • Sicrhau bod y cyngor wedi sefydlu a dilyn rheolau ar osod contractau<br>• Sicrhau bod y cyngor wedi diffinio'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau pwyllgorau a'r pwerau penderfynu a ddirprwywyd iddynt |
| 2019-20 | 1 Cofnodion cyfarfodydd | • Sicrhau bod y cyngor wedi cadw cofnodion priodol o'r busnes a gynhaliwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn holl gyfarfodydd y cyngor gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru